**Diweddariad yr Uned Ddata – PCYC Mai 2018**

## Data Cymru yw'r Uned Ddata bellach…

I gyd-fynd â lansio'n cynllun strategol, mae'n bleser gennym gyflwyno'n brand dynamig newydd "Data **Cymru**". Mae ein brand newydd yn cynrychioli ymagwedd newydd ffres at ddata yng Nghymru, ond gyda'r un dibynadwyedd ac ansawdd rydych yn ymddiried ynddynt, ymagwedd fwy beiddgar a blaengar, a sefydliad sy'n canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth…

## Gosod data a hysbysrwydd wrth galon darparu gwasanaethau cyhoeddus…

Ar 21 Mawrth lansiwyd ein cynllun strategol i gyd-fynd a'n brand newydd. Mae ein cynllun yn disgrifio dyfodol newydd cyffrous a fydd yn gweld Data Cymru ar flaen y gad mewn perthynas â data yng Nghymru!

Gallwch chi ddarllen ein cynllun gweler http://www.data.cymru/cym/strategic-plan .

Os hoffech chi siarad â ni am gyfleoedd i gydweithredu yn y daith gyffrous hon, mae pob croeso i chi gysylltu â ni drwy e-bostio ymholiadau@data.cymru neu ffonio 029 2090 9500.

## Llefydd Llewyrchus Cymru

Lansiwyd ar 24 Ebrill mae Llefydd Llewyrchus Cymru yn cyflwyno ffordd newydd ac arloesol o fesur llesiant a'r amodau sy'n caniatáu i bobl a llefydd ffynnu yng Nghymru.

'Llefydd Llewyrchus Cymru' yw'r dadansoddiad mwyaf cynhwysfawr o'r ffordd mae amodau lleol ar gyfer llesiant yn amrywio ar draws Cymru. Caiff data ei ddangos ar lefel awdurdod lleol a'i asesu yn erbyn tri phrif ddimensiwn – amodau lleol, cynaliadwyedd a chydraddoldeb. Caiff y data ei ategu gan fwy na 50 mesur ar wahân sy'n trafod meysydd fel iechyd, addysg a gwaith.

Am fwy o wybodaeth am y teclyn, cysylltwch â Duncan.Mackenzie@data.cymru

## Data Agored

Rydym yn gweithio tuag at wneud ein data ar gael yn agored ac yn hygyrch. Mae'r Sefydliad Data Agored wedi dyfarnu tystysgrif data agored efydd i ni am y data dangosyddion perfformiad sydd yn InfoBaseCymru. Mae hyn yn dangos bod ein data wedi'i drwyddedu'n agored, ar gael yn ddi-gyfyngiad, yn hygyrch a bod modd ei ailddefnyddio'n gyfreithlon. Hefyd rydym wedi cyflwyno fformat allforio JSON ar gyfer lawrlwytho.

Ein bwriad yw trefnu bod rhagor o ddata'n agored yn y dyfodol.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Suzanne.Draper@data.cymru.

## Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs) 2018-19

Yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi canllawiau Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs) 2018-19.

Mae'r set ddata hon wedi cael ei datblygu gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen dan arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), mewn ymgynghoriaeth ag awdurdodau lleol, ac mae'n ceisio cynnig trosolwg eglur a syml o berfformiad llywodraeth leol.

Mae'r canllawiau yn cynnwys diffiniadau manwl ar gyfer pob mesur, gan gynnwys canllawiau cynhwysfawr am y mesurau hynny y byddwn yn casglu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol. Rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth ar sut y gall pob un o'r PAMs yn helpu awdurdodau lleol i ddangos sut maent yn cyfrannu at y saith nod llesiant.

Dylai ymholiadau am y dangosyddion PAMs neu'r canllawiau gael eu hanfon at pienquiries@data.cymru

## Porth Data y Trydydd Sector

Rydym yn falch o fod wedi cefnogi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn datblygu eu Porth ar-lein newydd. Mae'r lansiad yn nodi cam cyntaf pwysig yn dwyn tystiolaeth ynghyd am y trydydd sector yng Nghymru mewn un adnodd deinamig sengl. Lansiwyd y Porth yn nigwyddiad gofod3 y WCVA ar 8 Mawrth. Mae'r Porth Data, sy'n unigryw i Gymru, yn rhoi'r trydydd sector o dan chwyddwydr, gan ddatgelu ymdrechion arwrol elusennau, mentrau cymdeithasol a chyrff eraill sy'n darparu manteision sylweddol, yn aml i'r rhai mwyaf bregus. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r WCVA i ddatblygu'r Porth ymhellach.

Er mwyn cael mynediad i'r Porth ymwelwch â gwefan y WCVA.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Andrew.Stephens@data.cymru

## Ymgynghoriad trafnidiaeth

Rydym wedi derbyn nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddata tagfeydd Trafficmaster a gynhaliom ar ran Llywodraeth Cymru. Os hoffech wybod mwy am hyn, cysylltwch â ni.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Rhys.Fidler@data.cymru

## Arolwg ymgeiswyr etholiad lleol 2017

Yn ystod yr etholiadau lleol ym Mai 2017 cynhaliom ni'r arolwg ymgeiswyr statudol. Nod yr arolwg yw darparu gwybodaeth am amrywiaeth ymgeiswyr a chynghorwyr etholedig mewn etholiadau tref a chymuned ac etholiadau sirol.

Dylai'r adroddiad gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai. Bydd hwn yn canolbwyntio ar y darlun o ran amrywiaeth ar lefel Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Jenny.Murphy@data.cymru